

Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Bydd y cwrs yma yn eich helpu i ddysgu am y canlynol:

- Ffitrwydd corfforol;
- Ffactorau sy'n effeithio ar gymryd rhan, darpariaeth a pherfformiad;
- Asesu a gwerthuso ffitrwydd;
- Effeithiau ymarfer;
- Ffactorau sgil a ffactorau seicolegol yn dylanwadu ar berfformiad;
- Gwahanol gweithgareddau ymarferol;
- Rolau gwahanol mewn gweithgareddau yn cynnwys dyfarnu a hyfforddi

Sut fyddai'n dysgu?

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ysgrifenedig a gwaith ymarferol. Bydd dwy wers yr wythnos a bydd un ohonynt yn ymarferol. Mi fydd mwy o bwyslais yn y gwersi i ddyfarnu a hyfforddi.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

- Ymarferol (60%) - fe fydd yr ymgeisydd yn cael ei asesu ar 4 gweithgaredd (15% yr un) ar gyfer ei asesiad terfynol.
- Arholiad (40%) – 1 papur 1½ awr.

Cofiwch!

- Mae yna bwyslais cryf ar waith ymarferol. Mae disgwyl i chi chwarae neu gymryd rhan mewn o leiaf un gweithgaredd all-gwricwlaidd. Mae'r gwaith ymarferol yn orfodol.
- Er mai pwnc ymarferol yw Addysg Gorfforol mae llawer o waith ysgrifenedig hefyd.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Mr. Gwyn Owen

